Sefydliad Materion Cymreig
Institute of Welsh Affairs

Cylchlythyr IWA Mehefin 2006

Digwyddiadau

Mae paratoadau ar droed ar gyfer nifer o gynadleddau pwysig yn yr hydref sy'n canolbwyntio ar nifer o faterion allweddol o bwys i Gymru. Ar Hydref 5 byddwn yn edrych ar yr effaith tebygol y caiff digwyddiadau chwaraeon, megis Cwpan Ryder (a gynhelir yng Nghasnewydd yn 2010) a'r gemau Olympaidd yn Llundain yn 2012, ar yr economi Gymreig, yn ogystal â'r rhan all datblygiadau fel Pentref Chwarareon Caerdydd a Stadiwm Liberty Abertawe chwarae wrth godi safonau chwaraeon a'r nifer sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon. Cynhelir y gynhadledd yn Stadiwm y Mileniwm Caerdydd, gan gychwyn am 9.30, a bydd cyfle i gael cipolwg ar y cyfleusterau tu ôl i'r llenni yn y stadiwm.

Ymysg y siaradwyr sydd wedi cytuno i gymryd rhan mae Paul Sergeant, prif weithredwr Stdiwm y Mileniwm, Arthur Emyr, cyfarwyddwr dros Gymru i'r gemau Olympaidd yn 2012, Huw Jones, prif weithredwr Cyngor Chwaraeon Cymru, Huw Edwin Jones o Gomisiwn Digwyddiadau Gogledd Cymru, John Jermine, cadeirydd Cwpan Ryder Cymru a Calvin Jones, economydd o Brifysgol Caerdydd sydd wedi cynnal ymchwil arbennig ar y thema. Cadeirydd y gynhadledd fydd Arglwydd Davies o Oldham, yn wreiddiol o Dredegar ac yn Weinidog Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Am fanylion pellach ynglŷn ag archebu eich lle yn y gynhadledd ewch i'n gwefan, www.iwa.org.uk neu ffoniwch ni ar 029 2066 6606. Disgwyliwn mai ond lle i 100 fydd ar gael, sy'n cynnwys cyfle i weld y cyfleusterau tu ôl i'r llenni yn y stadiwm, felly cynghorwn chi i archebu eich lle mewn da bryd.

Yn hwyrach yn yr un mis, ar Hydref 13, byddwn yn cynnal cynhadledd ar bolisi gwyddoniaeth yng Nghaerdydd gan ehangu ar y ddadl a ysgogwyd gan yr IWA yn y rhifyn diweddaraf o Agenda ac sydd wedi ennyn tipyn o sylw yn y wasg. Ymysg y siaradwyr fydd Syr Jon Cadogan, cyn bennaeth Cynghorau Ymchwil Gwyddoniaeth y DG. Arwyddwyd ei lythyr a feirniadai bapur ymgynghorol Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol, *Polisi Gwyddoniaeth i Gymru*, gan 12 o Gymrodyr Cymreig eraill y Gymdeithas Frenhinol, sefydliad gwyddoniaeth mwyaf blaengar y DG. Y wyddonwraig nodedig, Y Fonesig Susan Greenfeld, fydd yn traddodi prif anerchiad y diwrnod. Mae hi hefyd yn ddarlledydd ac awdur llyfrau megis *The Human Brain: A Guided Tour* a *Brain Story*. Mae hi'n Athro Ffarmacoleg yn Rhydychen ac hefyd yn Gyfarwyddwraig Sefyldiad Brenhinol Prydain Fawr. Cyflwynodd nifer o raglenni radio a theledu ac mae hi'n fwyaf adnabyddus am gyflwyno *Brain Story*, cyfres o chwech o raglenni ar yr ymennydd a'r meddwl, a ddarlledwyd ym mis Gorffennaf 2000. Yn fwy diweddar bu'n cynghori llywodraeth De Awstralia ar bolisi gwyddoniaeth.

Cyn hynny, ar ddydd Gwener 21 Gorffennaf, bydd Arglwydd Carlile, cyn AS Cymreig y Democratiaid Rhyddfrydol, yn annerch cyfarfod cinio yng Ngwesty'r Thistle, Caerdydd. Yn gyn Is-farnwr yr Uchel Lys, a Chofiadur Anrhydeddus Dinas Henffordd ers 1996, roedd hefyd yn Gadeirydd y Blaid Ryddfrydol Gymreig rhwng 1980 a 1982,

arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol Cymreig rhwng 1992 ac 1997 ac yn Llywydd y Democratiaid Rhyddfrydol Cymreig o 1997 hyd 1999.

Yn hydref 2001 fe'i penodwyd yn Arolygydd Annibynnol dros ddeddfwriaeth terfysgaeth. Yn ei anerchiad bydd yn trafod natur bygythiad terfysgaeth i Brydain a sut y dylid edrych ar hyn yng Nghymru. Bydd hefyd yn siarad am ddatblygiad terfysgaeth ym meddyliau jihadwyr ifanc terfysgol yn ogystal â dyfodol deddfwriaeth terfysgaeth.

Mae gennym hefyd raglen o ddigwyddiadau mewn mannau eraill o Gymru y gobeithiwn fydd o ddiddordeb i'n haelodau. Rydym yn bwrw trwy'r gyfres o ddarlithoedd ar y cyd â'r Llyfrgell a'r Amgueddfa Genedlaethol i ddathlu canmlwyddiant y ddau sefydliad, *Edrych yn Ôl ac Edrych Ymlaen*. Y nesaf yn y gyfres fydd darlith Dr Gaynor Kavanagh, pennaeth Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd, am *Amgueddfeydd Mewn Byd Ar Chwâl*. A gynhelir ddydd Gwener, Gorffennaf 17 am 6.00pm yn Theatr Ddarlithio Reardon Smith. Bydd y nesaf wedyn yn Aberystwyth ar Fedi 15, pryd bydd yr hanesydd o Gymro, Dr John Davies yn gofyn y cwestiwn *Cadw Atgofion Pwy?*

Hefyd ym mis Medi – ar y 28 – bydd cyn arweinydd y Blaid Geidwadol a'r cyn Ysgrifennydd Cartref Michael Howard, sy'n wreiddiol wrth gwrs o Lanelli, yn annerch cangen Gorllewin Cymru. Bydd yn siarad yng Ngwesty'r Strade yn ei dref enedigol am ei daith o Gymru i wleidyddiaeth San Steffan ac, fwyaf tebyg, yn bwrw golwg ar wleidyddiaeth Prydain. Yn gynt yn yr un mis, ar Orffennaf 20 bydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru yn trefnu digwyddiad ar y cyd a'r IWA yng Nghastell y Waun lle caiff aelodau gyfle i gael taith y tu ôl i'r llenni o'r gwaith cadwraeth a ymgymerir yno yn ogystal a thaith o amgylch y tŷ a'r gerddi a ddilynir gan drafodaeth ar *Yw Hanes yn Bwysig mewn Cymdeithas Heddiw?* Ar Hydref 13 bydd cangen Gwent yn dilyn y gynhadledd lwyddiannus a gynhaliwyd llynedd ar Adfywiad yn Memo Trecelyn gyda digwyddiad arall ynglŷn ag adfywio camlas Sir Fynwy a Brycheiniog. Fe'i cynhelir yng Ngwesty'r Parkway, Casnewydd, sydd hefyd newydd ei adnewyddu.

Am fanylion ynglŷn ag archebu eich lle ar gyfer unrhyw un o'r ddau ddigwyddiad yma ewch i'n gwefan neu ffoniwch ni ar y rhif ffôn uchod. .

Ymchwil

Bu cynnydd yn ystod yr haf ar brif brosiect ymchwil presennol y Sefydliad, *Agenda'r Trydydd Tymor*. Mae academyddion ac arbenigwyr eraill ar draws rhychwant eang o bynciau wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd ym mhencadlys y Sefydliad yng Nghaerdydd i drafod dewisiadau polisi all gael eu hargymell wrth pa bynnag weinyddiaeth fydd yn ffurfio llywodraeth Cymru wedi etholiadau'r Cynulliad fis Mai nesaf. Gofynwyd i'r paneli, fydd yn adrodd yn ôl dros y misoedd nesaf, nid yn unig i drafod y materion byr dymor sy'n effeithio pynciau fel addysg, iechyd, yr amgylchedd, cynllunio a'r economi ond hefyd i gymryd perspectif tymor hir o'r pynciau a dychmygu'r Gymru y dymunwn ei chreu yn y dyfodol a sut fath o bolisiau fydd eu hangen i wireddu'r ddelfryd.

Wedi iddynt gael eu hadolygu bydd trafodion y paneli arbennigol yn cael eu casglu ynghyd mewn cyfrol a gyhoeddir gan y Sefydliad i gyd-fynd â chynhadledd yng Ngwesty'r Thistle Caerdydd ar 17 Tachwedd. Gobeithiwn bydd ein haelodau wedyn

yn dwyn pwysau ar yr ymgeiswyr yn etholiadau'r Cynulliad i ystyried yr hyn a argymhellwn a'u mabwysiadu yn eu maniffesto ar gyfer yr etholiadau.

Hefyd ar y ffrynt ymchwil bu'r Sefydliad yn llwyddiannus gyda'i gais diweddar i Sefydliad Esmee Fairbairn i ariannu astudiaeth ar effaith cau ysgolion bychain yn dwyn y teitl *Ad-drefnu ysgolion bychain yng Nghymr: dadansoddiad rhanddeiliaid.* Golyga'r prosiect gynnal ymchwil llawr gwlad mewn dwy ardal a effeithir gan gynlluniau i gau ysgolion, Powys a Sir Benfro. Bydd yn astudiaeth blwyddyn o hyd gan cychwyn yn yr hydref. Bydd yr ymchwil yn astudio'r profiad o gau ysgol, ymgyfuno ysgolion ac ad-drefnu ysgolion cynradd mewn chwe ardal. Bydd y cyfweliadau a gynhelir â rhanddeiliaid allweddol yn trafod y graddau mae safbwyntiau pobl ynglŷn ag ad-drefnu a'i sgil effeithiau wedi newid o ganlyniad i brofi'r newid ei hun.

Materion aelodaeth

Mae croeso cynnes i aelodau a chefnogwyr y Sefydliad ymweld â ni yn ein stondin ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe, sy'n cychwyn ar Awst 5. Byddem hefyd yn ddiolchgar i glywed gan aelodau fyddai â diddordeb rhoi help llaw i ni yn y stondin am gyfnodau byr yn ystod yr wythnos. Fel y gŵyr eisteddfodwyr rheolaidd fe ddefnyddiwn yr Eisteddfod fel cyfle i farchnata ein cyhoeddiadau, cymell aelodau newydd i ymuno a chenhadu gwaith y Sefydliad. Unwaith eto cynhelir darlith flynyddol y Sefydliad ar y maes, a draddodir eleni gan Ron Jones, cyfarwyddwr y cwmni teledu annibynnol o Lanelli, Tinopolis, a greodd gryn dipyn o gynnwrf yn ddiweddar trwy brynu Sunset + Vine, cwmni mwy a chwmni cynhyrchu chwaraeon annibynnol mwyaf y DG.

O fis Medi byddwn yn rhoi gwybod i aelodau wrth ail-ymaelodi am godiad bychan yn y tâl aelodaeth o £30 i £35. Mae hi'n bedair blynedd ers y cynnydd diwethaf ac yn ystod y cyfnod wrth gwrs, fe gododd ein costau. Dylid cofio nad yw'r Sefydliad yn derbyn ceiniog o gymorthdal o unrhyw ffynhonnell cyhoeddus gan ddibynnu ar yr incwm a gaiff o aelodaeth unigol a chorfforaethol, o'r ymchwil a ymgymrir ac o'r digwyddiadau a drefnir. Un o gryfderau'r Sefydliad wrth gwrs yw nad ydym yn ddibynnol ar y pwrs cyhoeddus gan ein galluogi i gynnig sylwadau a syniadau yn gwbl ddiduedd.